# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Chwefror 2021

Amser: 09.15 - 12.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11055

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Darren Millar AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Llyr Gruffydd AS |
| Tystion: | Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Marie Brousseau-Navarro, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Jacob Ellis, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Heledd Morgan, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>Simon Brindle, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Charles, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Tim Buckle |
| Staff y Pwyllgor: | Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Chloe Corbyn (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor, gan estyn croeso i Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, hefyd.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Darren Millar AS i'r Pwyllgor, yn dilyn y bleidlais a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr 2021, a diolchodd i Angela Burns AS am ei gwaith ar y Pwyllgor.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2a Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Cyflwyniad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (Ionawr 2021)

### 2b Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (14 Ionawr 2021)

## 3 Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Sesiwn dystiolaeth 9

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i'r rhwystrau rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.

## 4 Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Sesiwn dystiolaeth 10

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i'r rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer y busnes a ganlyn: Eitem 6

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law, gan awgrymu meysydd yr oeddent yn dymuno gwneud argymhellion yn eu cylch yn yr adroddiad drafft.